Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu**
DYDDIAD:	**8 Rhagfyr 2022**
LLEOLIAD:	**Hybrid**
TEITL:	Y llwybr cyfeirio cyfredol i gael diagnosis o awtistiaeth
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi gwybodaeth am y llwybr cyfeirio cyfredol i gael diagnosis o awtistiaeth. Ystyried yr heriau a sut mae'r Gwasanaethau Ysgolion yn bodloni anghenion plant sydd wedi cael diagnosis neu'n aros i gael diagnosis.
Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Mae'r amser aros i gael diagnosis o awtistiaeth yn hir iawn ar hyn o bryd ac mae angen sicrwydd bod anghenion addysgol plant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn cael eu bodloni.

CEFNDIR:

Mae awtistiaeth yn gyflwr datblygiadol am oes sy'n effeithio ar y modd y mae pobl yn cyfathrebu a rhyngweithio â'r byd. Mae un o bob cant o bobl ar y sbectrwm awtistig ac mae rhai yn wynebu heriau llawer mwy nag eraill o ganlyniad i'r cyflwr hwn. Mae'r anawsterau sydd gan rai yn ei gwneud hi'n anodd iawn iddyn nhw gael mynediad at y cwricwlwm arferol ac mae darpariaeth arbenigol yn angenrheidiol. Mae eraill yn ffynnu wrth wneud tasgau addysgiadol oherwydd eu ffocws penodol, sylw i fanylder a dycnwch.

Gall plant a phobl ifanc y tybir bod ganddynt awtistiaeth ddangos gwahaniaethau mewn cyfathrebu cymdeithasol, yn eu patrymau ymddygiad a all gynnwys diddordeb neu ymwneud â gweithgareddau cyfyng ac ailadroddus a/neu wahaniaethau synhwyraidd. Tan yn ddiweddar, cyfeiriwyd holl blant a phobl ifanc Ceredigion i'n Tîm Asesu Cyfathrebu Cymdeithasol (SCAT) drwy ein hysgrifennydd iechyd pediatrig. Mae SCAT yn cynnwys pediatregydd ymgynghorol (ag arbenigedd mewn awtistiaeth); Therapydd Arbenigol Lleferydd ac Iaith (SALT); Seicolegydd Addysg; cynrychiolaeth o'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) ac aelod o'r Tîm Anabledd Plant. Caiff cyfeiriadau eu gwneud i'r pediatregydd sy'n cwrdd â'r plentyn a'r rhieni i gasglu gwybodaeth cyn penderfynu ar addasrwydd y cyfeiriad i SCAT. Pan fydd enw'r plentyn ar y rhestr SCAT, cesglir gwybodaeth a gwneir asesiadau amlddisgyblaethol i bennu a yw'r diagnosis yn briodol. Wrth i'r broses hon fynd rhagddi, bydd y tîm yn adolygu'r plant yn rheolaidd yn y cyfarfodydd. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch addasrwydd y diagnosis neu beidio, bydd y pediatregydd ac aelod staff proffesiynol arall o'r maes iechyd neu addysg yn hysbysu'r rhieni o'r penderfyniad. Bryd hyn, efallai y bydd rhieni'n penderfynu y byddai'n well ganddynt beidio â chael y diagnosis ffurfiol ond rhoddir caniatâd, fel rheol, i'r wybodaeth am anghenion y plentyn gael ei rhannu.

Tan yn ddiweddar, roedd yr amser yr oedd plentyn/person ifanc yn aros ar restr SCAT Ceredigion (o'r cyfeirio i'r diagnosis) yn rhyw ddeuddeg mis (a thua 100 o blant a phobl ifanc ar y rhestr), a rhai yn derbyn diagnosis yn llawer cynt nag eraill.

Yn 2015, cychwynnwyd datblygu polisi ar gyfer sefydlu gwasanaethau niwroddatblygiadol (ND) ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru gyda lansiad y rhaglen Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) a fyddai'n ail-lunio a chreu ffocws newydd ar wasanaethau iechyd meddwl a iechyd emosiynol i blant a phobl ifanc a gwella mynediad a chefnogaeth i bobl ifanc a theuluoedd. Un o flaenoriaethau'r rhaglen oedd gwella gwasanaethau ND a'r ffrwd waith i gefnogi hyn. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu llwybrau gofal i blant a phobl ifanc awtistig.

Lansiwyd gwasanaeth ND Hywel Dda ym mis Tachwedd 2015 ac mae'n dilyn model y cytunwyd arno yn genedlaethol ynghylch ffurfweddiad gwasanaethau a llwybrau diagnostig sy'n hyrwyddo mynediad teg at asesiad diagnostig. Yn 2019, estynnwyd y rhaglen T4CYP am ddwy flynedd arall er mwyn datblygu ymhellach y gwaith a oedd yn ymwneud â gwasanaethau ND. Mae'r gwasanaeth ND yn cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) ynghylch asesiadau diagnostig ac arferion da.

O'r cychwyn, trosglwyddodd Sir Gâr a Sir Benfro unrhyw gyfeirio o ran Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (ASC) i'r Tîm Niwroddatblygiadol (NDT) newydd. Roedd gan y ddau awdurdod lleol restrau aros hir yn barod ar gyfer gwneud asesiadau cyn i'r gwasanaeth gael ei sefydlu. Roedd yn well gan Geredigion ei ddull o asesu ac am nifer o flynyddoedd parhaodd gyda'r gwasanaeth SCAT ar gyfer pob disgybl gan y teimlwyd ei fod yn bodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc. Fodd bynnag, teimlai Hywel Dda ei bod yn bwysig bod y model cyflenwi gwasanaethau yn gyson a theg ar draws ei ôl troed a phenderfynwyd gan y Bwrdd Iechyd y byddai pob asesiad ar gyfer Cyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth yn cael ei wneud gan ei Dîm Niwroddatblygiadol yn ganolog. Yn 2020, cafodd mwyafrif plant a phobl ifanc Ceredigion a oedd yn aros am asesiad eu trosglwyddo i'r Tîm Niwroddatblygiadol.

Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Er bod y rhan fwyaf a gaiff eu cyfeirio am asesiad Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn awr yn mynd drwy'r Tîm Niwroddatblygiadol canolog, mae Ceredigion yn parhau i redeg y SCAT ac yn cynnal asesiadau i'r plant hynny sydd dan bum mlwydd oed.

Mae gan 169 o ddisgyblion ddiagnosis o awtistiaeth yn ysgolion Ceredigion ar hyn o bryd.

Mae 2192 o blant a phobl ifanc yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn awr yn aros am asesiad drwy'r Tîm Niwroddatblygiadol. Mae hyn gyfwerth â mwy na thair blynedd o aros. Mae 143 o'r rhai hynny sydd ar y rhestr aros yn ddisgyblion Ceredigion.

Cafodd Adolygiad o'r Galw a'r Capasiti gan Lywodraeth Cymru ei gomisiynu a'i gwblhau ym mis Mawrth 2022. Mae canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg yn awgrymu nad yw'r galw am wasanaethau ND ledled Cymru yn cyfateb i'r capasiti. Addunedodd Llywodraeth Cymru fwy o fuddsoddiad dros y tair blynedd nesaf i barhau i ddatblygu gwasanaethau.

<u>Sut mae hyn yn effeithio ar blant a phobl ifanc yn ysgolion Ceredigion?</u>

Mae'n bwysig nodi o'r cychwyn nad yw darpariaethau ac ymyriadau yn y Gwasanaethau Ysgolion yn ddibynnol ar ddiagnosis o awtistiaeth. Mae ysgolion yn ymateb i anghenion y plentyn unigol yn ei gymuned, beth bynnag fo'r diagnosis. Nid yw'r rhestr aros hir am ddiagnosis, felly, yn cael fawr o effaith ar y gefnogaeth y mae plentyn ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol yn ei chael yn yr ysgol.

Mae Seicolegwyr Addysg, Athrawon Ymgynghorol a SALT (ac weithiau Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol, Swyddogion Cynhwysiant a Gweithwyr Allweddol ac ati) yn gweithio gyda'i gilydd i asesu a dynodi anghenion yr unigolyn, a chynhelir cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn ysgolion i sicrhau bod y plentyn, ei deulu a gweithwyr proffesiynol yn gweithio tuag at ddeilliannau sy'n bwysig i'r plentyn.

Mae cynorthwyo ysgolion i ddeall a chefnogi disgyblion Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth wedi bod yn uchel ar agenda'r Gwasanaethau Ysgolion am nifer o flynyddoedd ac mae ysgolion wedi cael eu hannog i gael 'Tystysgrif Ymwybyddiaeth am Awtistiaeth' Awtistiaeth Cymru. Mae 70% o ysgolion Ceredigion yn awr wedi cael y wobr a rhai ysgolion yn y broses o'i chwblhau. Mae Ceredigion hefyd wedi buddsoddi mewn hyfforddi nifer o Eiriolwyr Awtistiaeth mewn ysgolion. Cafodd y Cynorthwywyr Addysgu hyn hyfforddiant ar wahaniaethau unigol a strategaethau cefnogi gan staff addysg arbenigol ac asiantaethau partner yn y Gwasanaeth Iechyd (e.e. Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Therapyddion Galwedigaethol). Mae'r Eiriolwyr Awtistiaeth wrth law yn yr ysgolion hynny i gynnig cyngor a strategaethau o ddydd i ddydd.

Cynhyrchwyd nifer o becynnau hyfforddiant hefyd ar ffurf rhestrau chwarae gan staff arbenigol yn yr Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol i roi gwybodaeth a strategaethau defnyddiol i staff addysgu a staff ysgolion.

- Gwneud Addasiadau Rhesymol
- Strategaethau Gwahaniaethu Syml
- Addysgu ar gyfer Niwroamrywiaeth
- Awtistiaeth mewn Merched
- Sgiliau Gweithredu Goruchwyliol yn yr Ystafell Ddosbarth
- Cyflwyniad i Anawsterau Prosesu Synhwyraidd
- Chwarae Synhwyraidd
- Cylchedau Synhwyraidd
- Ysgrifennu Storïau Synhwyraidd
- Datblygu Sgiliau Iaith Cynnar
- Cyflwyniad i Leferydd, Iaith ac Anghenion Cyfathrebu
- Awgrymiadau ac adnoddau defnyddiol i gefnogi dysgwyr ag ADY yn yr ystafell ddosbarth
- Beth yw gorbryder a sut galla i gefnogi disgybl gorbryderus yn fy nosbarth?
- Osgoi Ysgol ar sail Emosiynol

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n Therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n cynnig hyfforddiant i ysgolion ar bob lefel o ran anghenion cyfathrebu:

- Hyfforddiant ELKLAN i Gynorthwywyr Addysgu (rhaglen benodol i ddatblygu lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu)
- Attention Autism
- Hyfforddiant Rhyngweithio Dwys (i ddisgyblion cyn datblygiad geiriol)
- Strategaethau Cyfathrebu Cyfan gan gynnwys arwyddo, byrddau cyfathrebu ac ati.

- Dyfeisiau cyfathrebu a meddalwedd briodol
- Talkabout (grwpiau cyfathrebu cymdeithasol)

I'r disgyblion hynny ag arnynt angen darpariaeth addysgol fwy arbenigol/dwys, mae'r Gwasanaethau Ysgolion yn cynnig Canolfannau Adnoddau Arbenigol (SRCs) ar lefel gynradd ac uwchradd. Caiff y canolfannau hyn eu staffio gan staff arbenigol profiadol hyfforddedig. Nid oes angen diagnosis ar blant a phobl ifanc i gael mynediad at y darpariaethau hyn.

Rydym yn falch iawn o ddweud bod Ceredigion yn awdurdod cynhwysol ac rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr y bodlonir anghenion ein disgyblion yn lleol. Er nad oes gennym ysgolion arbennig, dim ond un disgybl, oherwydd difrifoldeb a chymhlethdod yr angen, sy'n derbyn addysg mewn ysgol arbenigol y tu allan i'r sir ar hyn o bryd.

<u>Cefnogaeth i Rieni</u>
Mae'r Gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu yn cynnig rhaglen 10 wythnos i rieni plant/pobl ifanc sydd wedi derbyn diagnosis neu ar restr aros SCAT/NDT. Mae hon yn rhaglen gynhwysfawr a chyflenwir pob pwnc yr ymdrinnir ag ef gan ystod o weithwyr proffesiynol ym maes Iechyd, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhaglen yn cwmpasu:

- Y Ffordd tuag at Ddiagnosis
- Cyfathrebu Cymdeithasol, Rhyngweithio Cymdeithasol a Dychymyg Cymdeithasol
- Anghenion Synhwyraidd
- Anghenion Synhwyraidd mewn Addysg ac ymatebion a strategaethau Ymddygiadol
- Gwahaniaethau Deietegol
- Anghenion y Bledren a'r Coluddyn
- Anghenion Therapi Galwedigaethol
- Safbwynt Seicoleg Addysgol
- Lleferydd ac Iaith ac Anghenion Cyfathrebu
- Meithrin ein Hunain a Chefnogaeth Bellach

Gall rhieni hefyd ofyn am fwy o gefnogaeth drwy Clic. Caiff ceisiadau eu hystyried a rhoddir ymateb cymesur. Cynigir pecyn gwybodaeth i rieni pan gaiff diagnosis ei wneud. Mae'n bosibl y cynigir asesiadau pellach gan y Gwasanaethau Cymdeithasol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i benderfynu a oes angen cefnogaeth bellach ar y plentyn/person ifanc a'i deulu i helpu'r unigolyn i gwrdd â'i ddeilliannau i gyflawni llesiant. Mae'n bosibl y caiff rhai gefnogaeth drwy Taliadau Uniongyrchol, drwy fynd i gynlluniau chwarae DASH neu drwy gyfrwng seibiannau. Mae cydweithio clòs gyda chydweithwyr iechyd yn caniatáu ar gyfer cefnogaeth wedi'i thargedu mewn meysydd penodol o ddatblygiad yn sgiliau'r unigolyn.

LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** **Crynodeb:** **Hirdymor:** **Integreiddio:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:**

ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

I gael gwybod am y llwybr cyfeirio cyfredol i gael diagnosis o awtistiaeth yng Ngheredigion.

I gael gwybod am sut mae'r Gwasanaethau Ysgolion yn bodloni anghenion plant sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth neu'n aros i gael diagnosis.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:
I godi ymwybyddiaeth o'r llwybr cyfeirio cyfredol a'r gefnogaeth a roddir gan Wasanaethau Ysgolion Ceredigion.

Enw Cyswllt:	Angharad Behnan
Teitl:	Prif Seicolegydd Addysg
Dyddiad yr Adroddiad:	

Acronymau:	ASC - Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (Autism Spectrum Condition) SCAT - Tîm Asesu Cyfathrebu Cymdeithasol (Social Communication Assessment Team) SALT - Therapydd Lleferydd ac Iaith (Speech and Language Therapist) ND – Niwroddatblygiadol TAF – Tîm o Amgylch y Teulu (Team around the Family) TAs – Cynorthwywyr Addysgu (Teaching Assistants) OT – Therapydd Galwedigaethol (Occupational Therapist) ALN – Anghenion Dysgu Ychwanegol (Additional Learning Needs)

SRCs - Canolfannau Adnoddau Arbenigol (Specialist Resource Centres)
NICE - Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal